**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Tachwedd 2016

Annwyl Mike,

**Deiseb P-04-660 Y Pwysau Ychwanegol sy'n Wynebu Ardaloedd Gwledig Prin eu Poblogaeth**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Awst 2016 ynghylch y ddeiseb uchod a dderbyniodd 1,049 o lofnodion.

Llwyddodd y Pwyllgor i gwestiynu cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y gwaith parhaus i ddiwygio'r fformiwla cyllido Llywodraeth Leol o ran awdurdodau gwledig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol, yn ystod ei waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cyhoeddi rheolau newydd i gefnogi ysgolion gwledig yng Nghymru a grant gwerth £2.5m y flwyddyn ar gyfer ysgolion gwledig ac ysgolion bach i gefnogi cydweithio rhwng ysgolion.

Amgaeir copi o adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, a gyhoeddwyd heddiw.

Bydd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi maes o law ar dudalennau gwe'r Pwyllgor. Disgwylir i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft gael ei chynnal ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2016.

Cofion cynnes

Simon Thomas

**Cadeirydd**